Wales COVID-19 Evidence Centre
Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

*Cefnogi'r defnydd o'r dystiolaeth ymchwil ddiweddaraf, gyfredol a pherthnasol sydd ar gael i lywio rheoli pandemig COVID-19 a sefydlu adferiad ac adfywiad yng Nghymru*

# Cylchlythyr WCEC



RHAGAIR GAN GYFARWYDDWR Y GANOLFAN, YR ATHRO ADRIAN EDWARDS

Mae'n bleser gen i eich croesawu i gylchlythyr Haf 2022 Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Rydyn ni nawr yn ein hail flwyddyn o ddwyn y dystiolaeth ynghyd ar bynciau allweddol a fydd yn effeithio ar bob un ohonon ni wrth i ni symud ymlaen i gyfnod adfer ar ôl y pandemig.

Wrth ddechrau'r cyfnod adfer, mae'n hanfodol ein bod yn dal i fod yn wyliadwrus am frigiadau pellach COVID-19 ac am amrywiolion newydd ohono a fydd yn dod i'r fei. Mae achosion yn cynyddu ac mae angen i ni fod yn barod ar gyfer heriau'r gaeaf a'r ffordd y bydd y pandemig yn parhau i effeithio ar ein bywydau, gan gynnwys rhestrau aros y GIG, cyflyrau iechyd tymor hir heb eu darganfod, COVID hir ac iechyd meddwl.

Ers mis Mawrth, rydyn ni wedi adolygu tystiolaeth ynglŷn ag anghydraddoldebau y gwnaeth y pandemig eu gwaethygu, gan gynnwys adroddiad ar yr effeithiau ar bobl anabl. Roedd yr ymchwil yn dangos bod y risg o farw yn gysylltiedig â COVID-19 deirgwaith yn fwy ar gyfer pobl anabl nag ar gyfer pobl nad ydyn nhw'n anabl. Defnyddiwyd yr adroddiad hwn i ddarparu sail ar gyfer tîm polisi Anabledd Llywodraeth Cymru, sef y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, a dygodd sylw at yr angen am fwy o ymchwil i sut y mae gwasanaethau'n adfer o'r pandemig.

Cafodd y pandemig effaith hefyd ar anghydraddoldebau ar gyfer menywod a merched. Ymhlith darganfyddiadau ein hadroddiad ar gyfer gwaith arloesi ym maes iechyd oedd y gallai cwmnïau iechyd digidol gael budd o fenywod yn datblygu technoleg rhyw-gyfeillgar sy'n diwallu anghenion iechyd menywod, a bod angen creu partneriaethau dilys â menywod duon a sefydliadau y mae menywod yn eu harwain er mwyn lleihau afiachedd a marwolaethau mamolaeth. Darparodd y darganfyddiadau sail ar gyfer cynllun Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhwng y rhywiau yng Nghymru.

Defnyddiwyd ein crynodeb o dystiolaeth ynglŷn ag effeithiau'r pandemig ar y gymuned LHDTC+ hefyd i ddarparu sail ar gyfer Cynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Mae gwaith pellach wedi edrych ar yr effeithiau ar boblogaethau carchardai, y digartref a hiliaeth yn y GIG. Byddwn ni'n trafod yr adroddiadau hyn yn Symposiwm Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru ar 27 Medi.

Roedd pynciau sy'n bwysig i'r GIG a staff gofal cymdeithasol hefyd yn sail ar gyfer ein hadroddiadau eleni. Buom yn edrych ar sut y gallwn ni gefnogi cleifion ar restrau aros llawdriniaethau, sut y gallwn ni recriwtio a chadw staff clinigol, ac effaith COVID hir ar gostau'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac ar gyflogaeth a chyfrifoldebau gofalu.
Yn ddiweddar, gwnaethon ni ymuno â'r tîm BioGyfansoddion ym Mhrifysgol Bangor i edrych ar effaith newidiadau mewn arferion gweithio oherwydd COVID ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Nod y gwaith hwn oedd disgrifio effaith amgylcheddol defnyddio ynni a chymudo yn ystod y pandemig. Rhannwyd y darganfyddiadau â phennaeth tîm datgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yng Nghrynodeb Cell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru o'r Cyngor.

Trwy gydol mis Mehefin a mis Gorffennaf, rydyn ni wedi gweithio gyda'n rhanddeiliaid, pobl anabl, tenantiaid cartrefi cymunedol, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc i nodi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw o ran adfer o COVID-19. Gwnaethon ni ddefnyddio'r barnau y dygwyd sylw atyn nhw yn ystod y sesiynau hyn i lywio ein gwaith wrth symud ymlaen.

Mae ein hadolygiadau cyflym wedi darparu atebion i lawer o gwestiynau, ond maen nhw hefyd wedi dwyn sylw at fylchau allweddol mewn tystiolaeth y gallai ymchwilio pellach fod o fudd iddyn nhw.Dyma a ysgogodd sefydlu Rhaglen Waith Ymchwil Sylfaenol Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, lle mae'r gwaith nawr wedi dechrau i gynnal astudiaethau ymchwil cyflym, perthnasol a chadarn i fynd i'r afael â heriau y mae'r pandemig wedi'u creu yng Nghymru.

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Mae Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Wales COVID-19 Evidence Centre
Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

# Y rhaglen waith a blaenoriaethu cwestiynau

CWESTIYNAU DA, WEDI'U HATEB YN GYFLYM

Rydyn ni bron wedi cwblhau ein Rhaglen Waith newydd, a fydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ym mis Medi. Mae hon yn cynnwys pynciau newydd y byddwn ni'n ymchwilio iddyn nhw.

Caiff cwestiynau ymchwil eu blaenoriaethu yn ôl eu perthnasedd i gyd-destun COVID-19 yng Nghymru ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, buddion posibl, potensial i'w drosi yn arfer a'r brys.

Yn ystod y drydedd rownd, rydyn ni wedi mynd ar ofyn dros 40 o grwpiau rhanddeiliaid ac aelodau o grwpiau y gwnaeth y pandemig effeithio'n anghyfartal arnyn nhw.

Buom hefyd yn cynnal ymarfer blaenoriaethu cwestiynau fel rhan o Symposiwm Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru ym mis Mawrth 2022. Gwahoddwyd yr holl gyfranogwyr i drafod eu blaenoriaethau mewn grwpiau ymneilltuo bach. Nodwyd 57 o bynciau i gyd. Yn sgil hyn, gwahoddwyd pawb a gofrestrodd i restru'r 10 cwestiwn a oedd yn bwysicaf iddyn nhw, yn ôl eu trefn. Cynhwyswyd y 10 cwestiwn a ddaeth i'r brig ar ôl cyfuno'r rhain yn ein hymarfer blaenoriaethu presennol. Mae'r cwestiynau eraill wedi'u cadw ar ffeil i'w hadolygu yn y dyfodol.

# Cynnwys y cyhoedd

***Dim ond trwy ddysgu o'r rheini sydd wedi byw trwy COVID y gallwn ni 'ddysgu i fyw' ag ef.***

**Public Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus**

Rydyn ni wrth ein boddau bod wyth aelod o'r cyhoedd nawr wedi ymuno â'r Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus. Mae eu cyfranogiad eisoes wedi bod yn hynod werthfawr (gwelwch y ffeithlun), ac maen nhw'n cael eu cynnwys yn holl waith y Ganolfan, o'r dechrau i'r diwedd – gan gynnwys blaenoriaethu cwestiynau, bod yn rhan o baneli cyllid grantiau, mynychu cyfarfodydd, dehongli darganfyddiadau, ysgrifennu crynodebau lleyg a mynychu sesiynau briffio ar dystiolaeth Llywodraeth Cymru, a bod yn gydawduron ein cyhoeddiadau cynlluniedig.

Mae enghreifftiau o'r crynodebau lleyg y mae aelodau'r Grŵp wedi'u hysgrifennu i'w gweld yn ein llyfrgell adroddiadau.

## Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru


Robert Hall


Sally Anstey


Debs Smith


Nigel Pearson

*Cydweithio â thîm craidd Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, partneriaid cydweithredol adolygu tystiolaeth a rhanddeiliaid eraill i gefnogi ein prosesau o'r dechrau i'r diwedd.*

Rashmi Kumar

Alexandra Strong

Chris Pavlakis

Nathan Davies

***Sut ydyn ni'n delio â byw â covid ac ailadeiladu bywydau pobl...a sut allwn ni geisio atal rhywbeth fel hyn rhag digwydd eto?***

Debs Smith, Aelod o Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus WCEC

***Doeddwn i heb sylweddoli faint o waith yr oedd adolygu'n galw amdano neu faint roedd yn rhaid i ni allu cael mewnweledіad i lawer o agweddau y mae'n rhaid i ni feddwl amdanyn nhw ynglŷn â'r ffordd orau i gyfyngu ar effeithiau covid... Dwi wedi mwynhau'r profiad a dwi'n gobeithio bod fy nghyfraniad wedi bod yn werth chweil a bod fy nghanlyniadau o fudd i'r cyhoedd yn y pen draw.***

Bob Hall, Aelod o Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus WCEC

**Gweithio gyda grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol**

Bu Dr Natalie Joseph-Williams (arweinydd cynnwys y cyhoedd ar gyfer y Ganolfan) hefyd yn gweithio gyda Pete Gee (Uwch Reolwr Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru) i nodi grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol yr oedd y pandemig wedi effeithio'n anghyfartal arnyn nhw, ac i weithio â nhw. Roedd hyn yn cynnwys cynnal pedwar gweithdy wyneb yn wyneb ac ar-lein yn ystod mis Ebrill a mis Mai gyda phobl anabl, tenantiaid cartrefi cymunedol, lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc, â'r nod o ddarganfod pa gwestiynau ynglŷn ag adfer o COVID oedd yn cael blaenoriaeth ganddyn nhw.

Rydyn ni'n ddiolchgar i bawb a fynychodd y rhain ac am gefnogaeth y sefydliadau a ganlyn i redeg y gweithdai hyn:

- Anabledd Cymru
- Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru
- Grŵp ALPHA (Canolfan DECIPHer)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc
- Caerdydd Sy'n Dda i Blant
- Cymdeithas Tai Taf

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Mae Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Wales COVID-19 Evidence Centre
Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

# Ein Hadroddiadau

Crynodebau Cyflym o Dystiolaeth (RES), Mapiau Cyflym o Dystiolaeth (REM) ac Adolygiadau Cyflym (RR)

Roedden ni'n gyffro i gyd ynglŷn â lansio ein **llyfrgell adroddiadau newydd** ym mis Mawrth 2022. Gellir nawr chwilio am bob un o'n hadroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi, yn ôl thema, a'u lawrlwytho yma. Mae adroddiadau diweddar yn cynnwys:

- RES00019. Pa dystiolaeth sydd o'r ddeddf gofal gwrthgyfartal ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru ac a waethygwyd hyn gan bandemig COVID-19? Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor (BIHMR), gydag Economeg Iechyd a Gofal Cymru
- RR00025. Effaith y pandemig COVID-19 ar iechyd pobl anabl ac ar eu gallu i gael gafael mewn gofal iechyd: adolygiad cyflym. Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Adolygu (SURE)
- REM00025. Effaith y pandemig COVID-19 ar blant ac oedolion anabl ar draws parthau bywyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Map Cyflym o Dystiolaeth. SURE
- RR00027. Pa ddatblygiadau arloesol sy'n gallu mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n dod i ran menywod a merched oherwydd y pandemig COVID-19 ar draws gwahanol feysydd bywyd/ parthau: gwaith, iechyd, safonau byw, diogelwch personol, cyfranogiad ac addysg? BIHMR
- RR00028. Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd ymyriadau/arloesiadau sy'n berthnasol i gyd-destun GIG Cymru i gefnogi recriwtio a chadw staff clinigol. Canolfan Cymru ar gyfer Gofal Sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth (WCEBC)
- REM00028. Pa arloesiadau (gan gynnwys dychwelyd i ymarfer) a fyddai'n helpu i ddenu, recriwtio neu gadw staff clinigol y GIG? Map cyflym o dystiolaeth. WCEBC
- RES00038. Beth ydy effaith COVID Hir ar gostau cyflogaeth a chyfrifoldebau gofalu? BIMHR
- REM00029. Beth ydy effaith y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau ar gymunedau LHDTC+ yn y DU a pha gamau gweithredu allai helpu i fynd i'r afael â hyn? SURE
- RR00030. Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd ymyriadau arloesol i gefnogi cleifion ar restrau aros llawdriniaethau dewisol. Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru
- RR0031. Pa effaith y mae newidiadau a ysgogwyd gan COVID-19 mewn arferion gwaith wedi'i chael ar allyriadau nwyon tŷ gwydr? Canolfan BioGyfansoddion, Prifysgol Bangor
- RR00036. Astudiaethau modelu a ddefnyddir i werthuso effaith ymyriadau anfferyllol lefel y boblogaeth ar rif atgynhyrchu Coronafeirws Syndrom Anadlol Acíwt Difrifol 2 (SARS-CoV-2). Technoleg Iechyd Cymru
- RES00034. Beth yw effaith galwadau oherwydd COVID Hir ar gostau'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol? BIMHR

# Rhaglen Waith Ymchwil Sylfaenol

Lansiwyd Rhaglen Waith Ymchwil Sylfaenol Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru ym mis Mawrth 2022 ac mae'n cael ei hariannu am 12 mis

Mae ein hadolygiadau cyflym wedi darparu atebion i lawer o gwestiynau, ond maen nhw hefyd wedi dwyn sylw at fylchau allweddol mewn tystiolaeth y gallai ymchwilio pellach fod o fudd iddyn nhw.

Cylch gwaith y rhaglen waith hon yw **diwallu'r angen am ymchwil sylfaenol neu 'newydd' berthnasol, gyflym a chadarn** ochr yn ochr â gwaith y ganolfan i gyfuno tystiolaeth.

Bydd ymchwil a fydd yn cael ei chomisiynu/ ei chynnal:

- Â ffocws cymwysedig
- Yn rhoi sylw i salwch COVID-19, ei effeithiau a'r adfer ohono; ac
- Yn cael ei gwneud yn gyflym i ddarparu sail ar gyfer anghenion polisi yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf

## Y tîm

Dr Natalie Joseph-Williams sy'n arwain y Rhaglen Waith, gyda chefnogaeth tîm o ymchwilwyr a staff gwasanaethau proffesiynol ymroddedig:

- Dr Alison Cooper (Mewnwelediad Ymchwil)
- Dr Denitza Williams (Rheolwr Ymchwil)
- Dr Abubaker Sha'aban (Ymchwilydd)
- Dr Erin Wynands (Ymchwilydd)
- Elizabeth Doe (Rheolwr Blaenoriaethu ac Effaith Ymchwil)
- Helen Freegard (Gweinyddwr Prosiectau)

Mae rhai o'n prosiectau ymchwil sylfaenol cynnar yn cynnwys:

- Sail covid hir o ran yr Ymennydd a Choesyn yr Ymennydd (Dr H Davies a'r Athro N Harrison, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Canolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol Caerdydd)



- Safbwyntiau'r cyhoedd yn ystod y pandemig coronafeirws (Dr K Dienes a Dr Williams, Prifysgol Abertawe)
- Gwerthuso cydraddoldeb o ran y rheini sy'n manteisio ar frechlyn Covid-19 (Iechyd Cyhoeddus Cymru / SAIL)

Caiff ein rhaglen ymchwil sylfaenol lawn ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf a'i diweddaru'n rheolaidd ar ein gwefan.

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Mae Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Wales COVID-19 Evidence Centre
Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

# Digwyddiadau

**Diwrnod Myfyrio Cenedlaethol – 23 Mawrth 2022**
Cynhaliwyd ein Symposiwm mis Mawrth, sef 'Blwyddyn o Effaith', ar 23ain Mawrth, yr un ddyddiad â'r Diwrnod Cenedlaethol Myfyrio ynglŷn â COVID, ac roedd yn cynnwys distawrwydd dwy funud i gofio pawb roedd y pandemig wedi effeithio arnyn nhw a phawb fu farw o'i herwydd.

Agorwyd y digwyddiad gan **y Prif Weinidog Mark Drakeford**. Bu **Fliss Bennée**, Cyd-Gadeirydd Grŵp Cynghori Technegol COVID-19, Llywodraeth Cymru, yn siarad am gyfathrebu gwyddoniaeth, pwysigrwydd a dyfodol cyngor gwyddonol a llunio polisi, a bu Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, hefyd yn gwneud anerchiad.

Bu tîm craidd Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru yn cyflwyno ein **Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus** ac yn dwyn sylw at ein **Rhaglen Waith newydd**. Cyflwynodd Kieran Walshe ac Adrian Edwards y **Rhaglen Waith Ymchwil Sylfaenol** newydd, ac yn sgil hyn cafwyd sesiwn ryngweithiol mewn grwpiau i drafod a nodi **cwestiynau â blaenoriaeth i gyfranogion.**

Cynhelir ein digwyddiad rhithwir 'EFFAITH ANGHYFARTAL, ADFERIAD TECACH' ar 27 Medi rhwng 9:30 a 12:20, a bydd yn cael ei agor gan Syr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru. Cofrestrwch yma.

Mae'r digwyddiad hwn ar gael am ddim ac mae croeso i bawb. Byddwn yn rhannu canfyddiadau ein hadolygiadau tystiolaeth ar anghydraddoldebau a'r cwestiynau diweddaraf rydym yn eu hateb, gan gynnwys y rhai a flaenoriaethwyd gan aelodau'r cyhoedd, cymunedau a dangynrychiolir a grwpiau anoddach eu cyrraedd yng Nghymru.

| |
|---|
| **Effaith y pandemig COVID-19 ar iechyd pobl anabl ac ar eu gallu i gael gafael mewn gofal iechyd: adolygiad cyflym.** Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Ymchwil |
| **Pa ddatblygiadau arloesol sy'n gallu mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n dod i ran menywod a merched oherwydd y pandemig COVID-19: adolygiad cyflym.** Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor (BIHMR) ac Economeg Iechyd a Gofal Cymru. |
| **Effaith y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau ar gymunedau LHDTC+ yn y DU a pha gamau gweithredu allai helpu i fynd i'r afael â hyn? Map Cyflym o Dystiolaeth a chrynodeb o argymhellion.** Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Ymchwil Siaradwr i'w gadarnhau |
| **Effaith y pandemig COVID-19 ar bobl ddigartref.** Gwaith Myfyriwr Prifysgol Caerdydd |
| **Effaith y pandemig COVID-19 ar boblogaethau carchardai.** Gwaith Myfyriwr Prifysgol Caerdydd |
| **Effaith y pandemig COVID-19 ar hiliaeth yn y GIG ac ymyriadau gwrth-hiliol.** Gwaith Myfyriwr Prifysgol Caerdydd |
| **Ymgysylltu â chymunedau yng Nghymru: nodi blaenoriaethau ymchwil pellach ar gyfer WCEC.** Dr Natalie Joseph-Williams |

# Cyfarfod â'r Tîm: Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru



Mae Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ers mis Ebrill 2021 i gynhyrchu adolygiadau cyflym o dystiolaeth. Mae tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn ymuno â'r cyfarfodydd rhanddeiliaid ac yn cyflwyno darganfyddiadau adolygiadau mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid a sesiynau briffio ar dystiolaeth Llywodraeth Cymru. Mae polisi, arfer a phenderfyniadau iechyd seiliedig ar wybodaeth wrth wraidd gweithredu iechyd cyhoeddus. Mae Gwasanaeth Tystiolaeth yr Arsyllfa yn cefnogi hyn trwy gynhyrchu adolygiadau systematig, mapiau o dystiolaeth a chrynodebau cyflym.

Mae eu dulliau'n dryloyw a gellir eu hatgynhyrchu, ac maen nhw'n ystyried ansawdd yr ymchwil a gynhwysir. Maen nhw'n defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau sy'n mabwysiadu gwahanol fethodolegau ymchwil i ddatblygu allbynnau sy'n addas i'r diben. Maen nhw hefyd yn darparu cefnogaeth a chyngor arbenigol i gydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd a wnelo â phrosiectau tystiolaeth.
Gallwch chi weld mwy am y gwasanaeth tystiolaeth a'u gwaith ar eu gwefan.
Dyma'r tîm craidd sy'n gweithio yn y Ganolfan: Chukwudi Okolie, Alesha Wale, Amy Hookway, Hannah Shaw a Jordan Everitt. Mae'r tîm craidd yn cael ei dynnu o'r tîm ehangach, gyda rhywfaint o gylchdroi staff.

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Mae Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government